Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Annwyl Cyfarwyddwr

**Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol**

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir y Fflint yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan ein gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn sy'n cynnwys y gweithgaredd a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu oedolion ym mis Chwefror 2019.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7303
CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 15 Ebrill 2019.

<u>Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant</u>

- Lles

Gall pobl fod yn hyderus bod gan y tîm uwch-reolwyr ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella sy'n ofynnol yn y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant. Caiff hyn ei gefnogi drwy weithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol mewn modd cadarnhaol i nodi a datblygu gwasanaethau wedi'i lywio gan ymgyngoriadau ac asesiadau poblogaeth.

Yn ystod ein gweithgaredd â ffocws mewn perthynas â diogelu oedolion, gwelsom dystiolaeth o ymatebion amserol a chymesur i atgyfeiriadau o achosion diogelu oedolion a oedd yn egluro materion ac yn glir o ran y camau gweithredu sydd eu hangen i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Roedd trafodaethau amlasiantaeth yn cael eu cofnodi'n gyson ac yn effeithiol mewn nodiadau achos a gwelsom dystiolaeth o oruchwyliaeth gan reolwyr.

Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r heriau sy'n ei wynebu wrth ddarparu gofal cartref ac mae wrthi'n archwilio modelau gofal amgen; mae'r astudiaeth dichonoldeb o ofal micro yn un enghraifft o hyn.

Yn y Gwasanaethau Plant, mae dealltwriaeth glir o'r heriau sylweddol maent yn eu hwynebu wrth recriwtio a datblygu gofalwyr maeth i gefnogi cohort sy'n cynyddu o blant ag anghenion cymhleth, plant hŷn a grwpiau o frodyr a chwiorydd. Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau cyllid i ymchwilio i fodel gofal maeth o'r enw Mockingbird. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu rhoi Model Gofal Maeth Mockingbird ar waith yn Sir y Fflint, hwn fydd y cyntaf yng Nghymru.

Mae'r uwch-reolwyr yn ymwybodol o'r pwysau sylweddol ar eu gweithlu a chlywsom eu bod yn gweithio gyda'i gilydd yn gyson i sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi llesiant staff.

- Pobl – llais a dewis

Mae'r tîm diogelu yn ymwybodol bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod yr holl brosesau diogelu yn gadarn. Gwnaed gwelliannau yn ddiweddar, gan weithio'n agos gyda thîm y Pwynt Mynediad Unigol, i sicrhau bod ymateb cydlynol i'r holl adroddiadau diogelu. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod dymuniadau a theimladau'r oedolion mewn perygl yn cael eu hystyried yn briodol ac yn gyson a'u bod yn cael eu grymuso i wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain.

Mae cynnwys plant â phrofiad o ofal yn natblygiad y gwasanaeth yn faes lle gwelir arfer cadarnhaol. Clywsom fod plant wedi cael eu cynnwys mewn proses i gydgynhyrchu cynllun gweithredu yn dilyn arolwg llesiant y gofynnwyd iddynt gymryd rhan ynddo ar ddiwedd 2017/18. Mae canfyddiadau allweddol yr arolwg hwn yn cael eu defnyddio i lywio datblygiad y gwasanaeth a threfniadau cefnogi ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn y gwasanaethau oedolion, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud trefniadau i ddeall profiadau pobl ag anabledd

dysgu ac oedolion hŷn sy'n byw gyda chymorth ychwanegol. Mae'r awdurdod lleol yn gweld buddion straeon digidol a rhannodd enghraifft o'r Hwb Cymorth Cynnar â ni.

Gwnaethom asesu arweinyddiaeth, cyfeiriad a chynnydd yr awdurdod lleol wrth ymwreiddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau rheng flaen fel rhan o'r gweithgareddau gwerthuso perfformiad blynyddol. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r angen i wella ei allu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Clywsom am y grŵp Paned a Sgwrs sy'n canolbwyntio ar fagu hyder gweithwyr yn eu defnydd o'r iaith. Mae cwrs Cymraeg penodol wedi cael ei gyflwyno i staff gofal cymdeithasol a chlywsom hefyd fod y gwasanaeth yn gweithio i gefnogi pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn parhau i gryfhau ei allu i ddarparu cymorth dwyieithog.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Mae'r awdurdod lleol wedi canolbwyntio ar ddatblygu a chryfhau gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal. Yn ystod ein gweithgaredd â ffocws, clywsom am y ffordd y comisiynodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint Hwb Cymorth Cynnar amlasiantaeth yn y Gwasanaeth Plant. Cyfarfûm â rheolwyr a gweithwyr o asiantaethau statudol ac anstatudol ac roedd yn amlwg o'r trafodaethau bod prosesau i rannu gwybodaeth a chyfathrebu ar draws asiantaethau wedi gwella canlyniadau i blant ac oedolion. Mae'r gynrychiolaeth amrywiol o asiantaethau gwahanol yn fuddiol. Cydnabuwyd bod angen cysylltiadau gwell â'r gwasanaeth iechyd meddwl oedolion ac roedd yn gadarnhaol clywed gan yr uwch-reolwr yn y Gwasanaethau Plant bod trafodaethau yn parhau â rheolwyr y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol i wella gweithio ar y cyd.

Yn y Gwasanaethau Oedolion, clywsom fod oriau agor y Un Pwynt Mynediad wedi cael eu ymestyn a bod y gwasanaeth bellach yn integredig gyda Tîm Ymateb Cymunedol. Mae'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol a'r trydydd sector yn canolbwyntio ar weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal cywir ar yr amser cywir. Mae'r bartneriaeth i bob pwrpas yn defnyddio cyllid gofal integredig i ddatblygu cymorth yn y gymuned sy'n hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r cynllun i ddatblygu model Rhyddhau i Asesu yn enghraifft o hyn.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Yn ystod ein gweithgaredd â ffocws gwelsom dystiolaeth o gydberthnasau gweithio da rhwng y tîm diogelu a thimau eraill y Gwasanaeth Oedolion. Siaradodd staff yn gadarnhaol ac yn gyson am y cymorth a'r arweiniad maent yn eu cael gan gydweithwyr yn y Tîm Diogelu. Roedd Uwch-reolwyr yn gwerthfawrogi eu hannibyniaeth. Gwelsom dystiolaeth o ffeiliau achos yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i nodi meysydd i'w datblygu ac i sicrhau dull gweithredu cyson.

Mae cydnabyddiaeth glir ar draws yr awdurdod lleol o'r cyfraniad y mae adrannau eraill, megis cludiant, addysg a hamdden, yn ei wneud i hyrwyddo llesiant.

Mae'r awdurdod lleol yn cymryd rhan weithredol mewn gweithio partneriaeth rhanbarthol. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cymryd rôl arweiniol i ddatblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac mae'n gadarnhaol nodi bod y gwasanaeth hwn wedi cael ei ddatblygu gyda phobl ag awtistiaeth a'u rhieni/gofalwyr o'r cychwyn cyntaf. Yn ddiweddarach, mae'r awdurdod lleol wedi dod yn arweinydd y Gwasanaeth Anableddau Dysgu Rhanbarthol. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gadeirio'r Bwrdd Diogelu Oedolion.

<u>Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20</u>

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn, ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.
Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Byddwn hefyd yn cynnal dau weithgaredd â ffocws yn ystod 2019/20; caiff y manylion eu cadarnhau yn dilyn cyfarfodydd yr haf ag Uwch-reolwyr.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir

Sharon Eastlake
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn